# CYLCHLYTHYR CRhA 2016

Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid a Disgyblion,

Mae CRhA Bryn Tawe wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth godi arian i wella addysg a phrofiad disgyblion ym Mryn Tawe. Mae hefyd yn gyswllt cartref-ysgol amhrisiadwy i rieni wrth i'w plant bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Yn wir, o ganlyniad uniongyrchol i haelioni, cefnogaeth a gwaith caled disgyblion, rhieni a staff, mae'r CRhA wedi codi miloedd o bunnau i brynu amrywiaeth o eitemau: o fws mini i'r ysgol i biano a drymiau, iPads, citiau tîm ac offer i'r adran Celf, TG a Thechnoleg Bwyd. Mae disgyblion Bryn Tawe wedi elwa o gael CRhA gweithgar a bywiog.

Rydym am ddiolch yn fawr i'r rhai a ddaeth i Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y CRhA, lle penderfynwyd ar yr aelodau canlynol i fod yn rhan o'r pwyllgor.

Mr Simon Davies – Pennaeth   Mrs Elizabeth Bevan – Cadeirydd

Mrs Sarah East – Ysgrifennydd   Ms Margaret Bartlett – Trysorydd

Mrs Nicky Heady, Mrs Lisa Marie Knight and Mrs Emma Lewis.

Rhan fach yn unig yw'r pwyllgor o'r CRhA, ac mae'r CRhA bob amser yn chwilio am rieni, neiniau a theidiau a gwarcheidwaid i wirfoddoli. Rydym yn gwerthfawrogi bod bywyd teuluol yn brysur iawn i'r rhan fwyaf o bobl, felly rydym ond yn gofyn am ychydig o ymrwymiad gan rieni ac nid yw'r gallu i siarad Cymraeg yn angenrheidiol.

Cefnogwch CRhA ysgol eich plentyn ym mha ffordd bynnag y gallwch. O ganlyniad i doriadau cyllidebol diweddar y cyngor, mae rôl y CRhA yn fwy canolog byth wrth gefnogi'r ysgol gyda'r "pethau ychwanegol" na fyddai ar gael fel arfer yng nghyllideb yr ysgol.

Os oes gennych amser i wirfoddoli mewn digwyddiadau, eitemau i'w rhoi i'n raffl ysgol, neu sgiliau y gallai'r CRhA eu defnyddio mewn ffyrdd eraill, cysylltwch ag aelodau'r pwyllgor CRhA drwy swyddfa'r ysgol. Neu, dewch i'n cyfarfod cynllunio nesaf ar gyfer y Ffair Nadolig ar **ddydd Mawrth 11eg Tachwedd am 4.00yp yn llyfrgell yr ysgol.**

Y digwyddiad cyntaf ar galendr CRhA yw'r: **Ffair Nadolig - nos Fercher 23ain o Tachwedd am 6.00 o`r gloch**

Os oes gennych unrhyw syniadau, rydym o hyd yn edrych am rhieni i goginio cacennau arbennig ! os hoffech wirfoddoli neu gael stondin yn y Ffair Nadolig, cysylltwch â Margaret Bartlett yn swyddfa'r ysgol.

Diolch yn fawr ymlaen llawn am eich cefnogaeth barhaus.

Mrs Liz Bevan  
Cadeirydd CRhA

Mr Simon Davies  
Pennaeth

YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffon: (01792) 560600 Ffacs: (01792) 560601
E-Bost: YGG.Bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
Pennaeth: Mr Simon Davies